*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Rhagfyr 2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Y Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch** |
| Pwnc | **Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2019/22 a'r Gyllideb ar gyfer 2019/20** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno, i'r Aelodau, y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) ar gyfer 2019/22 a'r cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2019/20.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub (ATA) osod cyllideb fantoledig ym mis Rhagfyr bob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gyllideb refeniw a chyfalaf ddrafft ar gyfer 2019/20 a'r strategaeth ariannol tymor canolig.

3 Mae'r adroddiad yn amlinellu'r risgiau allweddol a'r materion ansicr a ganfuwyd yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb, ac mae'n cadarnhau'r rhagdybiaethau allweddol a gafodd eu gwneud. Mae'r adroddiad yn cadarnhau dull o ariannu lefel gyfredol y gwasanaeth yn y tymor byr.

**ARGYMHELLION**

4 Bod yr Aelodau'n:

(i) cymeradwyo'r cyllidebau cyfalaf a refeniw ar gyfer 2019/20 yn seiliedig ar gynnydd yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol, sef £1.7m; a

(ii) cefnogi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

**CEFNDIR**

5 Mae angen i sefydliad effeithiol gael nifer o gynlluniau corfforaethol i sicrhau bod ei strategaeth gyffredinol a'i gynlluniau gwella yn cael eu gweithredu. Mae'r SATC yn cefnogi'r cynlluniau hyn ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at y meysydd a flaenoriaethwyd gan yr ATA. Drwy lunio SATC, gellir sicrhau bod dull strategol yn cael ei ddilyn i gynllunio cyllidebau a chyllid dros y tymor hir fel bod modd rheoli unrhyw newidiadau arfaethedig dros amser i sicrhau cyfnod pontio esmwyth.

6 Mae'r ATA wedi cyfrannu at y mesurau cyni, ac yn ystod 2010/2017 fe wnaeth yr Awdurdod ganfod arbedion gwerth £3m (10% o'i gyllideb) a lleihau ei weithlu 9% ar draws ei holl grwpiau o staff.

7 Pan gafodd cyllideb 2017/18 ei hystyried, sylweddololodd yr Aelodau ei bod yn dod anghynaliadwy i barhau i geisio rhewi cyllideb yr ATA felly, yng nghyfarfod yr ATA ar 20 Mawrth 2017, cytunodd yr Aelodau i gefnogi amcanion gwella drafft y ATA ar gyfer 2017/18. Mae'r ail amcan yn awgrymu strategaeth ariannol y gallai'r Awdurdod seilio ei SATC nesaf arno, sef:

> "Diogelu cynaliadwyedd ariannol yr ATA drwy fabwysiadu strategaeth ariannol 3 blynedd sy'n cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynyddu'r cyfraniadau ariannol a gwneud gostyngiadau i wasanaethau."

8 Yn 2017/18, sef blwyddyn gyntaf y strategaeth hon, roedd yr ATA blaenorol wedi cytuno i gael cynnydd o £1.28 miliwn, sef cynnydd o 4%, yn y cyfraniadau ariannol gan yr awdurdodau cyfansoddol. Dyma'r cynnydd sylweddol cyntaf ers 2010. Ond roedd hyn yn llai na'r hyn roedd ei angen i dalu costau cynyddol o ran cyflogau, prisiau ac ariannu cyfalaf. Felly, penderfynwyd tanategu cyllideb 2017/18 drwy defnyddio cronfeydd wrth gefn. Yn ystod 2018/19, fe wnaeth y gwariant gynyddu £0.9m ac ariannwyd hynny drwy gynnydd o £0.3m yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol, gyda'r balans o £0.6m yn dod o'r cronfeydd wrth gefn.

9 Fe wnaeth yr asesiad cynllunio cychwynnol ar gyfer 2019/20 nodi £35.4m o ofyniad ar gyfer y gyllideb net, o gymharu â £34.1m ar gyfer 2018/19. Mae hyn yn golygu cynnydd o £1.3m yn y gwariant net flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn ystod 2018/19, fe wnaeth yr ATA ddefnyddio £0.65m o'r cronfeydd wrth gefn i ariannu costau rhedeg nad oeddent yn gynaliadwy. Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn dangos y byddai'r cynnydd angenrheidiol gan yr awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 2019/20 yn £1.9m.

10 Cyfarfu'r Gweithgor Cynllunio bum gwaith rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2018 i ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer rheoli'r cynnydd. Yr argymhelliad gan y Gweithgor oedd bod yr ATA yn ymgynghori ynghylch cyllideb yn cael ei llunio ar sail y lefel bresennol o ddarpariaeth gwasanaethau. Fe wnaeth yr ATA dderbyn yr argymhelliad, a dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Medi 2018.

**Y GYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF DDRAFFT 2019/20**

11 Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion y gyllideb ar gyfer 2019/20 i ben ar 2 Rhagfyr 2018. O'r ymatebwyr, dywedodd 61% ohonynt fod £1.9m o gynnydd yng nghyfraniadau'r cynghorau yn well na gostyngiad yn y gwasanaethau. Dywedodd 24% y dylid cynnal y gwasanaethau er y dylai'r GTA geisio lleihau'r cynnydd. Datblygwyd y gyllideb refeniw ddrafft gan ddefnyddio'r ddarpariaeth gwasanaethau gyfredol, gan ystyried yr angen i ostwng y cynnydd i'r awdurdodau cyfansoddol i lai na £1.9m.

12 Yn atodiad A, nodir rhagdybiaethau cynllunio'r gyllideb, a'r risgiau. Pwysau chwyddiant yw'r rhai mwyaf arwyddocaol o ran costau gweithwyr. Mae'r asesiad cynllunio cyfredol yn rhagdybio 2% o ddyfarniad cyflog, er y nodir nad yw trafodaethau'r Cyd-Gyngor am setliad cyflog ar gyfer 2018 ac ymlaen wedi dod i ben. Mae Undeb yr FBU yn ceisio cael cynnydd o 17%, a byddai hynny'n arwain at £1.8m o bwysau costau. Risg arall yw cyfraniadau pensiwn y cyflogwr i ddiffoddwyr tân, a fydd yn cynyddu 9.6% yn dilyn yr ailbrisiad gan Adran Actiwari'r Llywodraeth yn ddiweddar. Amcangyfrifir mai'r effaith fydd £1.2m y flwyddyn, a'r rhagdybiaeth bresennol ar gyfer y gyllideb yn 2019/20 yw y bydd y cynnydd yn cael ei ariannu o'r canol.

13 Nid oes cynnydd chwyddiant wedi cael ei gymhwyso ers nifer o flynyddoedd i gyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau. Fel rhan o'r broses o osod y gyllideb, ystyriwyd y risgiau penodol dan bob pennawd yn y gyllideb.

14 Mae'r costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a ffioedd refeniw am ddefnyddio asedau cyfalaf. Disgwylir cynnydd yng nghyfraddau llog Banc Lloegr yn ystod 2019/20 ac mae hyn wedi'i gynnwys yn y gyllideb. Cynhaliwyd adolygiad o'r rhaglen gyfalaf i ganfod cyfleoedd i leihau neu ohirio gwariant cyfalaf.

15 Mae'r gwaith manwl uchod ar gynllunio'r gyllideb wedi nodi £35.2m o ofyniad net ar gyfer y gyllideb, sef cynnydd o £1.1m yn y gwariant net flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn atodiad 2, mae dadansoddiad pellach fesul pennawd yn y gyllideb.

16 Nid yw'r ATA yn dal digon o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r costau rhedeg, a byddai angen i'r gyllideb ddrafft gael cynnydd o £1.7m gan yr awdurdodau cyfansoddol. Mae hyn yn llai na'r asesiad cychwynnol, sef £1.9m, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod mesurau'n cael eu cymryd fel rhan o'r broses o osod y gyllideb. Yn atodiad C, darperir y cyfraniad arfaethedig terfynol gan bob awdurdod cyfansoddol.

17 Roedd yr asesiad cyfalaf cychwynnol yn dangos £4.9m o ofyniad cyfalaf ar gyfer 2019/20. Mae camau a gymerir i adolygu ac ail-broffilio'r rhaglen gyfalaf wedi arwain at ostwng y cynllun cyfalaf drafft arfaethedig ar gyfer 2019/20 i £3.1m.

**Y STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG AR GYFER 2019/22**

18 Mae'r SATC ddrafft ar gael yn atodiad B, ac mae'n asesiad o'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal y lefel gyfredol o ddarpariaeth gwasanaethau. Gwariant yn gysylltiedig â gweithwyr yw'r prif beth, ac mae'r strategaeth ariannol tymor canolig yn seiliedig ar ragdybiaeth gynllunio o 2% o ddyfarniad cyflog.

19 Y materion a nodir yn atodiad A yw'r risgiau allweddol a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r SATC. Y rhagdybiaeth gynllunio gyfredol ar gyfer y SATC yw y bydd dyfarniadau cyflog sy'n fwy na 2%, a'r costau pensiwn ychwanegol sy'n deillio o brisiad Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD), yn cael eu hariannu o'r canol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gyllideb yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion llesiant tymor hir, sef:<br>• Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i fod yn ddiogel os yw tanau o'r fath yn digwydd;<br>• Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae angen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg. |
| Cyllideb | £1.1 miliwn yw'r amcangyfrif presennol o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r gofyniad ar gyfer 2019/20. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod i osod cyllideb refeniw fantoledig. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae risg y bydd y dyfarniad cyflog yn cael ei gytuno ar lefel sy'n uwch na 2% ac na fydd hynny'n cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Mae risg na fydd y cynnydd o 9.6% yng nghostau pensiwn y cyflogwr yn cael ei ariannu o'r canol. |

**Crynodeb o'r rhagdybiaethau cynllunio a'r risgiau**

| Pennawd | Canran net o'r gwariant | Rhagdybiaethau cynllunio | Risgiau ac ansicrwydd |
|---|---|---|---|
| Costau Gweithwyr | 71% | • Ni ragwelir newidiadau sylweddol i strwythurau staffio<br>• Roedd y rhagdybiaethau cynllunio gwreiddiol ar gyfer 2018/19 yn cynnwys 1% o gynnydd yn y costau byw. Y rhagdybiaeth waith gyfredol yw y bydd chwyddiant cyflogau yn 2% dros gyfnod y SATC<br>• Ni ragwelir cynnydd yn y cyfraniadau yswiriant gwladol<br>• Y rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer y SATC yw na fydd cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr yn newid. | • Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) wedi darparu canlyniad ei brisiad yn 2016 o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Tynnwyd sylw at hyn fel cynnydd sylweddol yng nghyfraniadau'r cyflogwr yn deilio o newidiadau yn y cyfraddau disgownt a ddefnyddir. Y rhagdybiaeth gynllunio gyfredol yw y bydd y cynnydd o 9.6% yng nghyfraniadau'r cyflogwr yn cael ei dalu gan y Llywodraeth am gyfnod y SATC, er bod hyn yn dal yn risg allweddol<br>• Nid yw Cyd-Gyngor yr NJC wedi cwblhau'r trafodaethau cyflogau ar gyfer 2018 ac ymlaen. Mae Undeb yr FBU yn ceisio cael cynnydd o 17% i gynnwys adolygiad o fapiau rôl diffoddwyr tân. Mae risg na fydd codiadau sy'n uwch na 2% yn cael eu talu'n llawn gan y Llywodraeth. |
| Nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau | 20% | • Nid yw cynnydd chwyddiannol wedi'i gymhwyso, a rhaid i reolwyr y gyllideb ganfod arbedion i liniaru rhag pwysau costau cyffredinol. | • Mae pwysau costau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys TGCh a'r Ystâd<br>• Mae'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â Brexit yn dal yn risg allweddol. |
| Ariannu Cyfalaf | 10% | • Roedd yr asesiad cynllunio gwreiddiol yn cynnwys rhaglen gyfalaf o £4.9m ar gyfer 2019/20. Cafodd y rhaglen gyfalaf ei gostwng dros gyfnod y SATC, gan arwain at ostyngiadau yn yr arian cyfalaf.<br>• Mae cynnydd yn y cyfraddau llog wedi'i gynnwys wrth gynllunio'r gyllideb. | • Ni wyddom beth fydd y cynnydd posibl yn y cyfraddau llog, a gallai fod yn uwch na'r rhagdybiaethau cynllunio. |
| Incwm | -1% | • Adolygwyd y cyllidebau incwm, a'u gosod yn unol â'r blynyddoedd blaenorol. | • Ni chanfuwyd unrhyw risgiau penodol. |